

## Trefniadau trwyddedu ar gyfer saethu adar er mwyn atal difrod difrifol i bysgodfeydd

### Canllawiau

#### Pŵer i roi trwyddedau

##### 1. Dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981:

- 1.1. Mae'r holl adar gwyllt wedi'u gwarchod. Fodd bynnag, mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) awdurdod dan Adran 16(1)(k) at ddiben atal difrod difrifol i bysgodfeydd, gan gynnwys ffermydd pysgod, i roi trwyddedau a chaniatáu lladd neu gymryd adar gwyllt;
- 1.2. Os yw'r lladd neu'r cymryd yn digwydd yn unol â thelerau'r cyfryw drwydded yna ni fydd y gwaharddiad yn Adran 1 y Ddeddf yn gymwys;
- 1.3. CNC yw'r awdurdod trwyddedu yng Nghymru ar gyfer trwyddedau i saethu adar sy'n difrodi bysgodfeydd. Cydnabyddir fod mulfrain, hwyadwyddau (hwyaid danheddog a hwyaid danheddog bronrudd) a'r crëyr glas yn ysglyfaethwyr mewn bysgodfeydd.

#### Trefniadau ar gyfer rhoi trwyddedau:

##### 2.

- 2.1. fel arfer, rhoddir trwyddedau sy'n ymwneud â saethu adar i warchod bysgodfeydd i ategu dulliau dychryn yn unig. Rhoddir trwyddedau fel arfer i'r perchennog neu'r deiliad neu i unigolyn sydd wedi'i awdurdodi gan y perchennog neu'r deiliad yn unig;
- 2.2. caiff ceisiadau am drwyddedau i saethu mulfrain *Phalacrocorax carbo*, hwyaid danheddog *Mergus merganser*, crëyr glas *Ardea cinerea*, a hwyaid danheddog bronrudd *Mergus serrator*, eu hystyried ar unrhyw adeg. Fel arfer bydd unrhyw drwydded a gaiff ei dyroddi yn parhau am gyfnod cyfyngedig rhwng 1 Medi a 15ed Mawrth.

#### Difrod difrifol

##### 3. Rhaid bodloni'r amodau canlynol cyn yr ystyrir rhoi trwydded:

- 3.1. Rhaid i bob ymgeisydd ddarparu tystiolaeth fanwl bod difrod difrifol yn digwydd neu'n debygol o ddigwydd. Gallai hynny gynnwys tystiolaeth a gasglwyd o brofiad blynyddoedd blaenorol ac unrhyw wybodaeth ynghylch nifer yr adar sy'n bresennol yn y bysgodfa neu'r fferm bysgod. Dylid gwahaniaethu'n ofalus rhwng yr atebion a roddir i 8(c), difrod i stoc (a allai gynnwys er enghraifft cymryd stoc ifanc) a 8(d), difrod i bysgodfa (a allai gynnwys effaith ar e.e. dal pysgod, trwyddedau genwair etc a ffynonellau eraill o incwm);

3.2. Gall swyddogion o NRW ymweld â safle'r difrod honedig i gynnal asesiad cyn i chi gyflwyno cais er mwyn gwirio gwybodaeth yr ydych yn bwriadu darparu ar eich ffurflen gais ac i drafod pynciau megis y mesurau ataliol a gyflogir ar hyn o bryd neu a ddefnyddir yn y gorffennol. Ni roddir trwyddedau oni bai bod dulliau dychryn nad ydynt yn rhai marwol neu rwystrau amddiffynnol yn cael eu defnyddio lle bo'n rhesymol ac yn ymarferol gwneud hynny.

## Amodau'r drwydded

4. Bydd yr amodau canlynol yn berthnasol:

4.1. Bydd y nifer o adar y gellir eu saethu o dan y drwydded yn cael ei nodi arno. Rhaid ddychwelyd adroddiad o'r rhifau o bob rhywogaeth a saethir (gan gynnwys lle na saethwyd dim aderyn) yn cael ei anfon at CNC o fewn pedair wythnos ar ôl diwedd y drwydded, ar y ffurflen adroddiad swyddogol.

4.2. Bydd y drwydded yn nodi am ba gyfnod y mae'n ddilys;

4.3. **Nid yw trwydded gan CNC i saethu adar ynddi ei hun yn rhoi hawl i ddeiliad y drwydded saethu o fewn ardal y drwydded os yw mewn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), Gwarchodfa Natur Genedlaethol (GNG), Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA), Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) neu Safle Ramsar.** Deiliad y drwydded/y perchennog neu ddeiliad sydd i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol dan Adran 28 a 35 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 fel y'i diwygiwyd, mewn perthynas ag ardaloedd o'r fath;

4.4. **Yn ogystal â sicrhau trwydded gan CNC, gallai fod angen i'r trwyddedai/perchennog neu ddeiliad ymgynghori â CNC yn ysgrifenedig, mewn perthynas â SoDdGA, GNG, AGA, ACA neu Safle Ramsar, 4 mis cyn ymgymryd ag unrhyw weithredu.** Os oes angen iddynt ymgynghori â CNC, cynghorir ymgeiswyr y dylid gwneud hyn cyn gynted â phosibl ac na ddylid aros am ganlyniad y cais i Lywodraeth Cymru;

4.5. Bydd hawl gan ddeiliaid y drwydded roi awdurdod ysgrifenedig i hyd at bump o bobl eraill saethu adar dan y drwydded, neu chwech os nad yw deiliad y drwydded yn cymryd rhan yn y gwaith o ladd neu gymryd adar; deiliad y drwydded sy'n gyfrifol am yr holl weithgareddau a gyflawnir dan y drwydded.

4.6. Mae'n bosibl na fydd CNC yn rhoi trwydded i unigolyn sydd heb gydymffurfio â thelerau trwydded flaenorol; gellir atal neu ddirymu trwyddedau unrhyw bryd a bryd hynny, dylid eu hildio i CNC yn ddiymdroi.

4.7. Gellir pennu amodau eraill fel bo'n briodol.

## Troseddau

5. Dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981:

5.1. Gellir erlyn deiliad y drwydded am drosedd os yw'n methu â chydymffurfio â thelerau'r drwydded; a

5.2. Dylai ymgeiswyr nodi bod Adran 5 y Ddeddf yn gwahardd defnyddio rhai ffyrdd o ladd a chymryd adar gwyllt: trapiau, magl, rhwydi, calch adar a sylweddau tebyg, dyfeisiau trydan, sylweddau wedi'u gwenwyno neu sylweddau cysgu, bwa saeth neu fwa croes, gynau hela â barilau diamedr mawr, arfau awtomatig a lled-awtomatig sy'n gallu dal mwy na 2 rownd yn y magasîn, dyfeisiau ar gyfer goleuo targed neu ddyfais gweld ar gyfer saethu gyda'r nos, goleuadau artiffisial, drychau neu ddyfeisiau dallu eraill, nwy a mwg, cyfryngau gwlychu cemegol, recordiadau sain, adar byw wedi'u rhwymo neu eu hanffurfio sy'n cael eu defnyddio i ddenu a cherbydau a yrrir gan beiriant i ymlid adar.

## Trin eich gwybodaeth

6. Bydd yr holl wybodaeth a gedwir gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymwneud â'ch cais am drwydded yn cael ei phrosesu a'i rheoli gennym ni yn unol â'n rhwymedigaethau a'n dyletswyddau o dan:

- Ddeddf Diogelu Data 1998;
- Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000;
- Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004; a
- Phob deddf arall sy'n ymwneud â mynediad i wybodaeth.

O ystyried hyn, gall eich gwybodaeth, gan gynnwys eich gwybodaeth bersonol, fod yn destun cais gan aelod arall o'r cyhoedd. Wrth ymateb i geisiadau o'r fath mae'n bosibl y gofynnir i ni ryddhau gwybodaeth, gan gynnwys eich gwybodaeth bersonol.

Bydd ein hymateb i geisiadau o'r fath yn cydymffurfio â'r canllawiau a ddarparwyd gan God Ymarfer Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Cyhoeddir y cod ar y rhyngwyd yn: [www.gwybodaeth.cymru.gov.uk](http://www.gwybodaeth.cymru.gov.uk)

Os daw cais i law o dan ddeddfwriaeth gweld gwybodaeth i weld unrhyw wybodaeth a gawsom gennych ynghylch eich cais am drwydded, byddwn yn eich holi yn gyntaf cyn penderfynu sut i ymateb i'r cais.

I gael gwybodaeth bellach am y data personol a gasglwyd a'r defnydd a wnaed ohono, os oes gennych unrhyw bryderon am gywirdeb data personol, neu os dymunwch fanteisio ar unrhyw rai o'ch hawliau o dan y ddeddfau uchod, dylech gysylltu â:

- Swyddog Mynediad i Wybodaeth, Cyfoeth Naturiol Cymru, Ty Cambria, 29 Ffordd Casnewydd Caerdydd, CF24 0TP, neu ebostio [timshaw@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:timshaw@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk) neu ffonio 0300 065 3000
- Gellir cysylltu â llinell gymorth Swyddfa'r Comisiynwyr Gwybodaeth ar 029 2067 8400 neu ar or at [www.ico.gov.uk](http://www.ico.gov.uk)

7. Os ydych yn credu y cewch chi niwed pe bai'r wybodaeth yn cael ei datgelu o dan y ddeddfwriaeth gweld gwybodaeth, dylech ymateb i'r ymgynghoriad trwy esbonio'r niwed a gaech yn eich tyb chi. Byddwn yn ystyried eich barn ac unrhyw ffeithiau perthnasol sy'n bod pan ddaw'r cais i law, cyn penderfynu sut i ymateb i'r cais.

7.1 Os ydych yn gwneud cais ar ran perchnogion/deiliaid tir, gofawch eu bod yn deall y gallai CNC ddatgelu'r wybodaeth pe bai ymholiad yn dod i law o dan FoIA a/neu EIR.

## 8. Deddf Diogelu Data 1998: Hysbysiad Preifatrwydd

8.1 Bydd yr wybodaeth y gofynnir amdani ar y ffurflen gais hon yn cynnwys data personol amdanoch chi – er enghraifft, eich enw a'ch cyfeiriad. Bydd CNC yn rheoli ac yn defnyddio'ch data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data.

8.2. Mae'r hysbysiad hwn yn esbonio sut y bydd CNC'n defnyddio'r data personol sydd wedi'u darparu ar y ffurflen hon neu unrhyw ddata personol eraill y gallech fod wedi'u cyflwyno i CNC wrth wneud cais am drwydded.

8.3. Caiff eich data personol eu defnyddio'n bennaf i brosesu'ch cais a phenderfynu arno. Er hynny, gallai CNC (neu ei hasiantwyr) ddefnyddio'r wybodaeth at ddibenion eraill. Yn benodol, gellir defnyddio'r wybodaeth at y dibenion canlynol:

- Trawsgydymffurfio a chroes wirio rhwng partneriaid i sicrhau na thorrir rheolau'r cynlluniau y maent yn eu gweinyddu.
- Caniatáu partneriaid statudol i gyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol
- Archwilio a monitro
- Cyhoeddi gwybodaeth benodol ac ymateb i geisiadau am wybodaeth.

Byddwn yn cadw'ch data personol am chwe blynedd ar ôl y dyddiad y daw'ch trwydded i ben neu ddyddiad gwrthod y cais hwn. Yna difethir eich data personol yn ofalus.

## 9. Sut i wneud cais am drwydded

9.1. Dylid gwneud cais am drwydded ar ffurflen WCA1 'Cais am drwydded i ladd/cymryd Mulfrain / Crëyr glas/ Hwyaid danheddog/ Hwyadwyddau'. Dylid ei llenwi a'i hanfon at CNC at y cyfeiriad islaw:

**Tîm Gwarchod Rhywogaethau,  
Cyfoeth Naturiol Cymru,  
Maes y Ffynnon,  
Penrhosgarnedd,  
Bangor,  
LL57 2DW**

**Ffon. 03000653000**

**neu e-bostiwch eich ffurflen gais i [trwyddedrhywogaeth@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:trwyddedrhywogaeth@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)**

Dylai pob cais gynnwys map (o raddfa briodol) gyda ffin y bysgodfa neu'r fferm bysgod wedi'i marcio arno.

## 10. Rhagor o wybodaeth

10.1 Ceir rhagor o wybodaeth am drefniadau trwyddedu o'r cyfeiriad uwchlaw.

Yn y ddogfen hon mae “Cyfoeth Naturiol Cymru” yn golygu Corff Adnoddau Naturiol Cymru a sefydlwyd gan erthygl 3 Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012. Trosglwyddodd Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013 swyddogaethau perthnasol Cyngor Cefn Gwlad Cymru a swyddogaethau Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru i Gorff Adnoddau Naturiol Cymru.